

TERFYSG YR HEDDLU YN ORGREAVE



Yn ystod streic y glowyr, teithiodd miloedd o lowyr i ologsgfa Orgreave, De Swydd Efrog, ar 18 Mehefin 1984 i gymryd rhan mewn piced. Roedd picedi bach wedi'u cynnal eisoes yn ystod mis Mai a dechrau mis Mehefin y flwyddyn honno.

Roedd oddeutu 6,000 o swyddogion yr heddlu yn aros yno am y glowyr, sef swyddogion o blith heddluoedd ar draws Prydain i gyd. Heddlu De Swydd Efrog a oedd yn gorchymyn y swyddogion hyn – sef yr un heddlu a fyddai, ym 1989, ochr yn ochr â'r llywodraeth Geidwadol ar y pryd, yn gysylltiedig â chelu gwybodaeth am farwolaethau 97 o gefnogwyr pêl-droed yn nhrychineb Hillsborough.

Daeth swyddogion yr heddlu i gwrdd â nifer o'r glowyr, gan eu gwthio i mewn i gae, i'r de o'r safle. Daliwyd y glowyr rhwng rhesi o swyddogion yr heddlu ac arglawdd y rheilffordd. Carlamodd dwsinau o swyddogion ar gefn ceffylau i fyni'r cae i gyfeiriad y glowyr, a'r tu ôl iddynt hwy roedd yna swyddogion gwrth-derfysg gyda batonau a thariannau. Cafodd y glowyr a geisiodd ffoi eu hymlid, eu curo'n ddirugaredd, a'u harestio. Yn y pen draw, cyhuddwyd 95 o lowyr o achosi terfysg neu ymgynnull yn anghyfreithlon.

Oherwydd tystiolaeth annibynadwy gan yr heddlu, chwalodd treial y 15 glöwr cyntaf. Yn y diwedd, cafodd yr erlyniadau yn erbyn y 95 glöwr eu gollwng a thalodd Heddlu De Swydd Efrog £425,000 i rai glowyr. Mewn adroddiad gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu a luniwyd yn 2015, tynnwyd sylw at bryderon ynglŷn â defnydd yr heddlu o drais gormodol ac amheuwyd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr heddlu yn y treial.

Eisiau rhagor o wybodaeth?
otjc.org.uk

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Er mwyn ceisio dangos mai'r glowyr a oedd wedi dechrau'r trais ar 18 Mehefin, cafodd y ffilm a wnaed o'r digwyddiad gan y BBC ei dangos 'o chwith'. Roedd yr honiad mai'r glowyr a ddechreuodd y trais yn hollol anwir.

Erbyn hyn, ceir tystiolaeth bod y llywodraeth Geidwadol ar y pryd yn uniongyrchol gysylltiedig â phlisma'r streic yn weithredol.

Yn 2024, yn union cyn ethol llywodraeth Lafur a oedd wedi ymrwymo i gynnal ymchwiliad, dinistriodd Heddlu Northumbria dystiolaeth yn ymwneud ag ymddygiad yr heddlu yn Orgreave.

PAM RYDYM ANGEN CYFRAITH HILLSBOROUGH

“Roeddwn yn arfer parchu'r heddlu. Ond ar ôl Orgreave a'r pethau a wnaethant inni, ni allaf ymddiried ynddynt. Mae'r un peth yn wir am fy meibion, a welodd yr effaith a gafodd hyn oll arnaf”

Kevin Horne, glöwr a arestiwyd yn Orgreave, un o ymgyrchwyr Ymgyrch Orgreave

“Pan gaiff gwybodaeth bwysig ei dinistrio, sef gwybodaeth am ymosodiadau treisgar yr heddlu ar lowyr sy'n streicio, ni fydd y dystiolaeth hollbwysig honno ar gael mwyach [...] Mae hyn oll yn ychwanegu at nifer o bryderon sydd gennym ynglŷn diffyg cyfiawnder a'r heddlu'n celu gwybodaeth”

Kate Flannery, ymgyrchydd Ymgyrch Orgreave

“Chwalodd y treial oherwydd ymdrech yr heddlu i gyflwyno tystiolaeth ffug. Gobeithio y bydd dyletswydd gonestrwydd yn atal hyn rhag digwydd eto yn yr ymchwiliad”

Chris Peace, ymgyrchydd Ymgyrch Orgreave